YR ATODLEN

Amodau

RHAN 2

Amodau cyn y defnydd cyntaf at ddibenion rheoli ar y ffin

Tirlunio

14.—(1) Rhaid gwella'r tirlunio presennol.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), ystyr "gwella" yw mynd i'r afael ag erydiad ac ardaloedd tenau ac ysbeidiol yn y tirlunio presennol drwy fesurau sy'n cynnwys—

(a) crafu;

(b) gwrteithio'r pridd;

(c) tocio a ffurfio;

(d) torri pren marw;

(e) rhwygo a phalu i atal cywasgu.